OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2011 Rhif 2449 (Cy. 264)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Ffairfach i Landeilo, Sir Gaerfyrddin) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2011

*Gwnaed* *7 Hydref 2011*

*Yn dod i rym* *17 Hydref2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Abertawe - Manceinion (yr A483) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi'u bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoli Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 17 Hydref 2011. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Ffairfach i Landeilo, Sir Gaerfyrddin) (Cyfyngiadau Dro a Gwaharddiadau Traffig Dros) 2011.

**2.** —1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" *("the lengths of the trunk road")* yw'r darnau o'r gefnffordd o Ffairfach i Landeilo, yn Sir Gaerfyrddin, a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 17 Hydref 2011 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu tynnu oddi yno'n barhaol;

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, heblaw cerbyd esempt, fynd ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb yn ystod cyfnod y gwaith ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

**6.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad a'r cyfyngiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

**7.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 7 Hydref 2011

***G R Morgan***
**G MORGAN**
Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru

## ATODLEN 1

## HYD A LLED Y GWAHARDDIAD AR BOB CERBYD.

Y darn hwnnw o'r gefnffordd a elwir Stryd Rhos-maen, Llandeilo sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â Stryd Caerfyrddin i bwynt at ei chyffordd â Heol Newydd a Heol Cilgant, Llandeilo.

## ATODLEN 2

## HYD A LLED Y TERFYN CYFLYMDER 10 MYA DROS DRO A GWAHARDDIAD RHAG GODDIWEDDYD

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 100 o fetrau i'r de o'i chyffordd â Chae Glas, Ffairfach, i bwynt wrth ei chyffordd â Stryd Caerfyrddin, Llandeilo.